

Bedydd yn Noddfa

Ar fore Sul y Pasg, roedd hi'n fendith i ni fel eglwysi'r Cylch gael rhannu mewn oedfa fedydd yn Noddfa, a dathlu atgyfodiad ein Harglwydd mewn arwydd rymus o'i fywyd ymhlith ei bobl. Daeth Delyth a Rob Phillips yn aelodau i Noddfa o eglwysi o enwadau eraill, a chydabyddwn gyda diolch ein bod ni'n etifeddion gwaith a gyflawnwyd gan eraill yn eu bywydau yn enw'r Arglwydd, a thrwy rym yr Ysbryd Glân. Dymuniad Delyth a Rob oedd cyffesu'r Arglwydd Iesu yn y bedydd, ac roedd hi'n wefreiddiol i glywed eu tystiolaeth yn y pulpud cyn eu gweld yn ymroi yn y dŵr wedyn. Ar y bore arbennig hwn, cawsom y fraint o groesawu teuluoedd a ffrindiau'r ddau atom hefyd, ac edrychwn ymlaen at eu gweld eto ar achlysuron arbenig. Diolchwn i Dduw am Delyth a Rob, (diolchwn ni hefyd iddyn nhw am fod mor barod) ac edrychwn ymlaen at blethu eu doniau yn llawn i fywyd a gwaith Noddfa yn yr ardal ac yn y Cylch.

Nid ar chwarae bach mae agor bedyddfan! Diolch i Derek, yn arbenig, ac i Alun, Alwyn a Roy a fu'n cynorthwyo. Diolch i'r diaconiaid a swyddogion am drefnu gwresogi'r dŵr; diolch i bob un fu'n cymryd rhan gyhoeddus yn yr oedfa ar emyn, darlleniad, gweddi, a chyfeiliant, a diolch i'r rhai fu'n darparu'r paned ar ôl yr oedfa. - a phawb am ddod!

Oedfa eciwmenaidd

Bu'n rhaid gohirio oedfa 21 Mawrth oherwydd fod cymaint o eglwysi'n methu dod, ond gobeithio y bydd modd cyhoeddi dyddiad newydd yn fuan. Ac yna, ym mis Mai, byddwn ni yn Brondeifi ar 23 Mai am 7 ar gyfer oedfa Cymorth Cristnogol.


Chwiorydd Aberduar

Dymuna chwiorydd Aberduar ddiolch i bob un am y gefnogaeth a gawsant ar noson yr Arwerthiant flynyddol yn ystod mis Mawrth.

Julia a James Henley

Bu'r penwythnos cenhadol yn llwyddiannus iawn, a diolch i bob un am ei gyfraniad i'r digwyddiadau. Dymunwn yn dda i'r teulu bach wrth iddyn nawr ddychwelyd i Urubamba, a chofiwch am eu gwefan jhenley.blogspot.co.uk am y newyddion diweddera.

Rhaghysbys: (oedfaon unedig y 5ed Sul) 30 Mehefin - Aberduar; 29 Medi - Bethel



Deufis

Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi

Ebrill a Mai 2013

Trefn oedfaon y Sul

Mae'r oedfaon yn gyhoeddus a chroeso i bob un fynychu unrhyw un o'r oedfaon sy'n gyfleus.

7 Ebrill

Aberduar	10.00 y bore	Cwrdd blynyddol a'r Parchg Stephen Morgan yn pregethu Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	6.00 yr hwyr	Cymun

14 Ebrill

Aberduar	10.00 y bore	Mr Arwyn Pierce
Bethel	10.15 y bore	Cymun
Seion	1.30 y prynhawn	Cymun
Noddfa	2.00 y prynhawn	Rihyrsal Cymanfa Ganu
Brynhafod	3.00 y prynhawn	Cymun

21 Ebrill

Noddfa	9.30 y bore	
Aberduar	11.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	

28 Ebrill

Aberduar	10.00 y bore	Mr Glyn Vittle
Bethel	10.15 y bore	
Brynhafod	1.30 y prynhawn	
Seion	3.00 y prynhawn	

Newyddion etc i'r gweinidog erbyn **16 Mai:** Galilea, 14 Cae Coedmor, Cwmann SA48 8EH, 01570 423442, jilltomos@tesco.net

drosodd/...

Trefn y Suliau (parhad)

5 Mai

Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	6.00 yr hwyr	Cymun

12 Mai

Aberduar	10.00 y bore	Mr Gerwyn Morgan
Bethel	10.15 y bore	Cymun
Seion	1.30 y prynhawn	Cymun
Salem Caio	2.00 y prynhawn	Rihyrstal Cymanfa Ganu
Brynhafod	3.00 y prynhawn	Cymun

19 Mai

Aberduar	10.00 y bore	
Bethel	2.30 y prynhawn	Cymanfa Ganu'r plant
	5.30 yr hwyr	Cymanfa Ganu'r oedolion

26 Mai

Aberduar	10.00 y bore	Mr Lyndon Lloyd
Bethel	10.15 y bore	Oedfa unedig i Fethel, Noddfa a Chaersalem dan ofal y Parchg Athro Densil Morgan
Brynhafod	2.00 y prynhawn	Oedfa unedig i Frynhafod a Seion: doniau'r eglwys

Rhaghysbys

2 Mehefin

Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	6.00 yr hwyr	Cymun

Cylch Darllen

Cofiwch bawb ein bod ni wedi newid dyddiadau'r Cylch Darllen am Ebrill a Mai. Bydd am 10.30 yn Festri Noddfa, yn ôl yr arfer: 17eg o Ebrill, Efengyl Ioan, pennod 21, Hannilia yn gwneud y paned; 7ed o Fai, Actau pennod 16, Ann yn gwneud y paned. Croeso i bawb, a chofiwch roi gwybod i mi os ych chi'n bwriadu dod am y tro cyntaf, rhag ofn fod angen addasu'r trefniadau ar fyr rybudd.

Cyfarfod blynyddol swyddogion a diaconiaid y Cylch

Cynhelir y cyfarfod blynyddol hwn ar **29 Ebrill 2013**, yn festri Aberduar, am **7 o'r gloch**. (Os digwydd na fydd y festri ar gael, byddwn ni yn y capel.) Dyma'r cyfarfod i fwrw golwg yn ôl dros y flwyddyn, ac yn sgîl hynny i benderfynu ar faterion y Cylch am y dyfodol gan gynnwys trip a chinio. Byddai'n braf cael cefnogaeth o bob un o'r eglwysi, felly os gwelwch yn dda, chi swyddogion a diaconiaid, gwnewch nodyn yn y dyddiadur, neu ar y calendar ar y wal neu ble bynnag arall sydd gennych i'ch atgoffa, ac edrycha i ymlaen at eich gweld.

Ysgol Sul

Daeth tymor y Pasg i ben yng ngwaith yr Ysgol Sul, gyda nifer da wedi bod yn dod ynghyd, ac ambell un bach newydd hefyd, ar brynhawn Gwener, i ddarllen a gwrando a chanu. Mae'r plant hefyd yn gweithio ar lyfrau gwaith lliwgar a deniadol y gyfres gyfredol o werslyfrau'r Cyngor Ysgolion Sul. Bydd y llyfrau hyn yn mynd â'r plant drwy stori fawr y Beibl dros gyfnod o ddwy flynedd, ac erbyn diwedd y ddwy flynedd fe fydd y llyfrau gwaith yn gallu mynd adre gyda'r plant i fod yn feibla bach maen nhw'n gyfarwydd â nhw ar eu silffoedd gartre. Ar 17eg o Fawrth, bu plant yr Ysgol Sul, yng nghwmni'r bobl ifainc, yn arwain ein haddoliad mewn oedfa oedd yn llwyddo i gyfuno cyffyrddiadau ysgafn â myfyrdodau dwys, ac yn addas i'r tymor. Roedd y cyfan yn cael ei gyflwyno gyda graen, 'fel i'r Arglwydd', ac rydym yn ddiolchgar i bob un fu ynglŷn â'r paratodau, o'r llwyfan i'r ymarferion a'r cyflwyno ar brynhawn Sul. Diolch i Janet am sicrhau fod pob un yn gwybod ei waith! Ac, wrth gwrs, diolch i'r plant am ddod mewn bwrlwm i'r festri i fwynhau cwrdd â Iesu 'ym more oes'.

Cymanfa Ganu

Cofiwch am y ddwy rihyrstal ar 14 Ebrill (Noddfa) a 12 Mai (Salem Caio). Mr Emllyn Davies, Llanybydder, sy wedi cytuno i arwain y Rihyrstals unwaith eto, ac rydym yn ddiolchgar iddo am hynny. Fe gynhelir y Gymanfa ei hun ar 19 Mai, y plant am 2.30 a'r oedolion am 5.30 (Bethel Silian) o dan arweiniad Mr Twynog Davies. Darperir te rhwng yr oedfaon: croeso i bawb - mae trefniadau Bethel ar y gweill!